# Fframwaith ac Offer ar gyfer Asesu Perygl Llifogydd Lleol

Crynodeb o’r Prosiect SC070059/S

Mae fframwaith newydd wedi'i ddatblygu gan Asiantaeth yr Amgylchedd i helpu awdurdodau lleol i ddeall a rheoli perygl llifogydd yn well yn eu hardaloedd.

Mae'r fframwaith yn cydnabod cyfrifoldebau statudol newydd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yng Nghymru a Lloegr ac yn cefnogi asesiadau cadarn, cyson o’r perygl ar draws gwahanol raddfeydd gofodol fel rhan o Gynlluniau Rheoli Dŵr Wyneb, Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ac astudiaethau sy’n ymwneud â Rheoliadau Perygl Llifogydd.

Mae’r gallu i ddeall, cyfathrebu a chynllunio ar gyfer perygl llifogydd lleol yn rhan hanfodol o rolau newydd awdurdodau lleol. Mae'r prosiect hwn yn darparu dulliau hyblyg ac ymarferol i’w defnyddio wrth asesu perygl llifogydd lleol.

Mae offeryn prototeip wedi cael ei ddatblygu i ddangos sut i weithredu’r fframwaith a’r dulliau. Mae'r offeryn yn dangos y fethodoleg y gellir ei defnyddio ar gyfrifiadur sy’n defnyddio setiau data cenedlaethol a lleol i gyfrifo ac arddangos, o fewn fframwaith cyson, fetrigau perygl llifogydd sydd wedi’u diffinio gan y defnyddiwr.

Mae'r offeryn yn cymryd pob amlinelliad o lifogydd a gynhyrchir gan brosiectau eraill Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn eu gosod dros y Set Ddata o Dderbynyddion Cenedlaethol i fesur perygl llifogydd mewn lleoliad penodol. Gellir ailadrodd y broses hon gyda ffynonellau data eraill megis mapiau llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd, allbynnau o fodelau hydrolig, neu drwy ddefnyddio gwybodaeth leol arall.

Mae'r offeryn yn caniatáu i ddefnyddwyr roi pwysoliad gwahanol i ffynonellau gwahanol o lifogydd i adlewyrchu blaenoriaethau. Yna gellir cyfuno’r perygl o wahanol ffynonellau i roi un perygl llifogydd ar gyfer lleoliad. Yna gellir cyflwyno’r canlyniadau mewn tabl neu ar fap, a gellir eu gweld yn gyflym i ddarparu cyflwyniad rhyngweithiol.

Bydd y prosiect yn ychwanegu at dystiolaeth sy’n bodoli eisoes ar asesu perygl llifogydd a bydd yn helpu i gefnogi awdurdodau lleol drwy gyflwyno dulliau ac offer sydd:

- Yn glir i'w dilyn ac yn gydnaws â setiau data, dulliau modelu a meddalwedd sydd ar gael yn eang;
- Yn gysyniadol gyson â hierarchaeth Asesu Perygl Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer dulliau Cynllunio Systemau llifogydd afonydd ac arfordiroedd;
- O gymorth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;
- Yn cefnogi ymagwedd agored, hyblyg i asesu perygl sy'n gydnaws â'r gwahanol fodelau, data a gwybodaeth sydd gan bartneriaid rheoli perygl llifogydd; ac
- O gymorth i sicrhau gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd lleol a chyfathrebu cyson ohono, trwy gymhathu'r modelau, y data a’r wybodaeth leol orau sydd ar gael.

Mae'r offeryn prototeip ar gael am ddim i'w lwytho i lawr ac, ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn datblygu’r offeryn ymhellach, mae’r cytundeb trwyddedu hefyd ar gael o'r ddolen ganlynol: http://evidence.environment-agency.gov.uk/FCERM/ên/SC070059.aspx

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o SC070059, yr adroddwyd yn fanwl yn ei gylch yn yr allbwn canlynol:

**Adroddiad:** SC070059/R3
**Teitl:** Fframwaith ac Offer ar gyfer Asesiadau Perygl Llifogydd Lleol
**Rheolwr y prosiect:** Dave Hart, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth
**Rheolwr Thema:** Stefan Laegar, Thema Modelu a Pherygl

**Mai 2014**

**Contractwr Ymchwil:** JBA Consulting, South Barn, Broughton Hall, Skipton, Gogledd Swydd Efrog, BD23 3AE. Ff: 01756 799 919
E: neil.hunter@jbaconsulting.co.uk.

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd fel rhan o’r Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gyflawnir ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Defra.

Ebost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.
Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd.